

Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn:

- 👉 defnyddio ac yn rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a phethau
- 🧠 meddwl yn greadigol er mwyn trio eto a datrys problemau
- 🔑 gweld cyfle ac yn manteisio arnynt
- 😬 trio pethau anodd ac heriol – meddwl gwyrdd
- 🟡 arwain ac yn chwarae rôl gwahanol mewn timau gan drio eu gorau glas bob tro
- 📁 rhannu syniadau a theimladau mewn ffyrdd gwahanol. e.e. papur, cyfrifiadur, bwrdd gwyn, ipad, hwb, ysgrifennu, bocs pryderon
- 👏 trio eu gorau glas i helpu pobl eraill i lwyddo

Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn:

- 😬 gosod sialens anodd iddyn nhw eu hunain, a mwynhau ei wneud
- 👉 defnyddio eu gwybodaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd
- 🧠 hoffi datrys problemau ac yn gofyn cwestiynau
- 🏆 siarad yn hyderus yn y Gymraeg
- 👤 medru egluro eu syniadau yn glir
- 📚 defnyddio rhif mewn gwahanol lefydd yn gywir
- 📄 defnyddio technoleg yn greadigol i siarad, creu dogfennau a dadansoddi data
- 📖 trafod beth maent wedi ei ddysgu ac yn gwella eu hunain at y tro nesaf
- ...ac yn barod i ddysgu bob tro!

Y 4 Diben

Bro Dyfrdwy



“Yn y llaw fach, mae'r holl fyd”

Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus sydd yn:

- 📖 defnyddio a dod o hyd i wybodaeth i roi barn
- 🌐 gwybod beth sy'n digwydd i'r blaned
- 👥 helpu'r blaned, pobl ac anifeiliaid mewn unrhyw ffordd a rhoi eu barn
- 😬 deall ac yn meddwl am yr effaith mae eu dewisiadau yn gael ar eu bywydau a'r blaned
- 📖 dysgu am yr ardal leol, y wlad a'r byd ddoe, heddiw ac yfory
- 📖 parchu teimladau a barn pobl eraill oherwydd fod pawb yn wahanol
- 👏 dangos eu bod yn barod i wneud y byd yn lle gwell i fyw

Yn unigolion iach, hyderus sydd yn:

- 👂 edrych ar ôl eu hunain ac eraill
- 📖 meddwl am deimladau eraill. Bod yn deg hefo pawb
- 👂 peidio a siarad am fod yn iach yn unig – bod yn iach!
- 👂 cofio cael digon o hwyl a sbri wrth ymarfer corff a bwytia'n iach
- ✍️ dysgu sut i gadw'n iach ac yn ddiogel
- 👂 bod yn iach, bod yn heini, a mynd amdani!
- 🧠 meddwl yn ofalus cyn gwneud penderfyniad. Cadw'n saff
- 👂 mynd amdani a mwynhau perfformio. Maent yma i gefnogi eu gilydd
- 📖 parchu pawb a bod yn ffeind. Gwneud ffrindiau newydd
- 👂 mynd amdani wrth wynebu pob sialens. Meddwl yn wyrdd.
- 👂 bod yn annibynnol ac yn mynd ati i ddysgu pethau newydd, gan ddatblygu eu sgiliau bob dydd
- 👂 helpu yn eu cymuned. Bod yn ran bwysig o'r gymuned.